# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 256 Pris £1 Mis Gorffennaf 2022



# Ffiliffest '22

## PWYSIG

Mae nifer o'n darllenwyr wedi tynnu'n sylw at y ffaith nad yw eu copi o'r papur bro yn eu cyrraedd trwy e-bost. Efallai fod hyn am ein bod yn gyrru'r papur allan mewn grwpiau o 10-12 copi. Mae'n rhaid gwneud hyn gan fod gennym dros 160 ohonoch yn derbyn y papur ar-lein.

Daw'r papur allan yn weddol gyson yn ystod wythnos gynta'r mis ac felly os nad yw eich copi wedi'ch cyrraedd, mae lle i ofni fod rhywbeth wedi mynd o'i le. Rydym yn cyhoeddi bob mis ac eithrio mis Ionawr a mis Awst. Gawn ni felly eich annog i gysylltu â ni os na fydd y papur wedi eich cyrraedd ddechrau'r mis. Edrychwn ymlaen at eich cydweithrediad.

Diolch, Pwyllgor "Cwm*ni*"

## Achub y Plant

Tybed a oes gennych chi focs o hen emwaith sydd byth yn cael ei wisgo. Beth am fynd drwyddo a'i ddidoli ac yna ei roi at achos da?

Eleni, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, bydd gan yr elusen 'Achub y Plant' stondin emwaith. Arni, gwerthir gemwaith ail law o bob math, rhai'n rhad a rhai'n ddrud.

Caiff unrhyw ddarnau arian neu aur eu prisio a'u gwerthu am bris realistig a'u harddangos mewn cypyrddau gwydr pwrpasol. Os na werthir hwy yr wythnos honno byddant yn mynd i siop emwaith i'w gwerthu at yr elusen.

Yn 2017, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, llwyddwyd i godi dros £4,000 drwy werthu gemwaith.

Os hoffech chi helpu 'Achub y Plant' a hynny mewn ffordd ddidrafferth, cysylltwch os gwelwch yn dda efo un ohonom.....

Yn y De...Emma Berry 07733 328101 walesberry@hotmail.com

Y dyddiad cau am roddion ydi Gorffennaf 25ed. Gwerthfawrogir unrhyw eitem.

Diolch, Emma ac Alison, Achub y Plant


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannnol gan **Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com



**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**


**Cedwir yr hawl i addasu erthyglau yn unol â gofynion golygyddol**

# Gŵyl Flodau ‘22

# Bethel















# Cofio Catrin Terry Rowlands
# (1951-2022)



Cwta bum mlynedd ers clywed nad oedd modd iacháu ei chyflwr o Pulmonary Lung Fibrosis, bu farw Catrin Terry Rowlands yn 70 oed. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Peter, a'i meibion Deian ac Osian a'u teuluoedd hwythau. Roedd ei thad, sef y Parchg Terry Thomas yn weinidog gyda'r Presbyteriaid yn Neiniolen, Sir Gaernarfon, pan anwyd Catrin, a phan wahoddwyd hi i ymuno gyda Gorsedd Beirdd Ynys Prydain, dewisodd cael ei galw yn 'Catrin Deiniol'. Pan yn 9 oed symudodd y teulu i Aberteifi, a gwnaeth Catrin a'i chwaer Rhian lawer o ffrindiau. Yn dilyn cyfnod addysg uwchradd yn Aberteifi aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Caerdydd, a graddio mewn Cerddoriaeth cyn cael ei chymhwyso i fod yn athrawes. Cychwynnodd ei gyrfa yn Ysgol Heol Ddu, Bargod, cyn trosglwyddo i Ysgol Sant Ilan, yng Nghaerffili, ac yna fel athrawes beripatetig chwythbrennau i ardal Cwm Cynon, cyn gorffen ei gyrfa ddysgu fel pennaeth adran yn Ysgol Uwchradd Porth County.

Tra yn y coleg, cyfarfu gyda bachgen ifanc o Sir Fôn, o'r enw Peter Rowlands, ac ymhen y rhawg, priododd y ddau yn Aberteifi, ac ar ôl symud i Benpedairheol, ymaelododd y teulu yn Eglwys Siloh, Ystrad Mynach. Bu Catrin yn gyfeilyddes yno tan ddaeth yr achos i ben, a symudodd y teulu wedyn i Eglwys Bresbyteraidd y Crwys yng Nghaerdydd. Eto gwasanaethodd Catrin fel organyddes arbennig.

Roedd hi nid yn unig yn athrawes gerdd tan gamp, ond yn gyn-glarinetydd gyda Cherddorfa Ieuenctid Cymru a Cherddorfa Ieuenctid Ewrop, a hefyd yn gyfansoddwraig, gan ennill mewn cystadlaethau cyfansoddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyhoeddwyd sawl darn o'i gwaith. Mae ei meibion hefyd yn gerddorol eu natur, gyda Deian yn delynor proffesiynol yn Llundain, tra bod Osian wedi gweithio fel Rheolwr Corws y BBC, ac ar hyn o bryd yn Brif Weithredwr Menter Iaith Rhondda Cynon Taf.

Roedd y teulu yn hynod bwysig iddi, ac roedd wrth ei bodd yn Nain falch i Dewi a Betsan, ei hwyrion. Bu llu o elfennau cymdeithasol eraill yn bwysig i Catrin gan gynnwys bod yn un o'r rhai a sefydlodd Merched y Wawr yn Ystrad Mynach, ac yn aelod selog gyda 'Cylch y Gwragedd' a'r grŵp a weithiai dros Gronfa Achub y Plant. Cyfrannodd yn sylweddol i fwrlwm Adran yr Urdd yn Abertridwr, a bu'n un o gantorion cynnar Rhianedd Cwm Rhymni ac yn Is-arweinydd i Gôr Godre'r Garth. Bu'n frwdfrydig yn cefnogi C.Ô.R., sef côr cymysg o dan arweiniad ei mab Osian. Roedd o hyd yn chwilio am hwyl a digrifwch mewn bywyd, ond yn gadarn ei ffydd Gristnogol ac yn frwd dros y Gymraeg. Ni adawodd i'w hafiechyd lywodraethu ei ffordd o feddwl, ac er colli ei chwaer Rhian yn erchyll o ifanc, roedd y wedd gadarnhaol i'w bywyd yn herio pob cwmwl du. Bu'n ffrind da i lawer iawn ohonom, ac wrth ddiolch am y fraint o'i hadnabod, estynnwn ein cydymdeimlad at ei theulu.

*Y Parchedig Denzil John*

# Yr Ŵyl Flodau ac Oedfa o Fawl

Ers dwy flynedd bellach ni fu capeli ac eglwysi'n gwlad yn atseinio o foliant ar gân fel yn y blynyddoedd a fu. Hyfryd felly oedd cael y cyfle ar nos Sul, 19 Mehefin, i ddod ynghyd i ganu rhai o'n hoff emynau mewn oedfa o fawl yn Nhonyfelin ar ddiwedd yr Ŵyl Flodau flynyddol.



*Dathlu canmlwyddiant yr Urdd*

Am dridiau bu Eglwys Bethel yn fôr persawrus o liw a diolch i'r rhai a fu'n dylunio delweddau amrywiol. Yn eu mysg yr oedd trefniannau i gyd-fynd â dathliadau Urdd Gobaith Cymru yn 100 oed a'r rhaglen boblogaidd *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* yn 60 oed. Mae cysylltiadau rhwng y gyfres hon a Chaerffili gyda dau o gyn-weinidogion Bethel wedi bod yn gyflwynwyr, y Parchedig Ddr Gwilym ap Robert a'r Parchedig Ddr Alun Evans. Un o blant yr ardal, Aled John, sydd bellach yn cynhyrchu a chyfarwyddo'r gyfres ac un o ddiaconiaid Tonyfelin, Dr Eirian Dafydd, a enillodd y gystadleuaeth i gyfansoddi emyn yn gynharach eleni. Roedd arddangosfa arall yn nodi ychydig o hanes Eglwys Tonyfelin.

Bu'r Oedfa o Fawl a ddilynodd yn gyfuniad hyfryd o emynau, darlleniadau, myfyrdodau a gweddïau. Dewiswyd yr emynau yn ofalus gyda rhai ohonynt yn rhoi cyfle i'r ddwy gynulleidfa i gofio am anwyliaid a gollwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



*Dathlu Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn 60 oed*

Dewiswyd 'Meddwl am fyd heb flodyn i'w gofio' fel teyrnged i Huw Williams a fu'n gweithio mor ddyfal dros nifer o flynyddoedd gyda threfniadau yr Ŵyl Flodau ym Methel a Nigel Davies a fyddai wastad ym Methel i estyn croeso cynnes i bawb. Roedd yr emyn yma hefyd yn un o hoff emynau Anne Evans. Dros y blynyddoedd gweithiodd Anne yn gydwybodol iawn i drefnu oedfaon o fawl ar ddechrau'r haf gan ddod â chorau o ysgolion cynradd Cymraeg y cylch ynghyd i foli ar gân a thrwy gyfrwng cerddoriaeth llu o offerynnau amrywiol. Hi hefyd fyddai'n arwain y gân yn yr oedfaon 'Carol a Channwyll' a ddaeth yn rhan annatod o'r Nadolig i lawer ohonom. Cofiwn amdani hefyd fel yr un a arweiniai'r côr merched a ganai mewn oedfaon arbennig ac ail-ffurfiwyd y côr ar gyfer yr oedfa hon. Ergyd oedd ei cholli ond tra bo canu mawl yn y fro, fe fydd y cof am Anne yn fyw.

Colled arall fu colli Rita Milton-Jenkins a feddai'r ddawn i ysgrifennu emynau rhagorol. Rhaid felly oedd canu dau o'i hemynau. Canwyd 'Iôr am y cariad trwy y maith flynyddoedd' sy'n efelychiad o emyn cyfarwydd Timothy Dudley-Smith 'Lord of the years' ynghyd â chyfieithiad Saesneg Rita o emyn ei hewyrthr, y Parchedig E. Cefni Jones, 'Pan oedd Iesu dan yr hoelion', a ddaeth yn un o hoff emynau Cymru. Diolch yn fawr iddi am adael gwaddol o emynau gwych i gyfoethogi'n mawl.

I ddathlu'r ffaith bod y ddwy gynulleidfa bellach wedi ymuno, canwyd emyn y Parchedig John Gwilym Jones sy'n sôn am bobl Dduw yn dod ynghyd fel un teulu i gyd-weithio, gyd-gerdded a chyd-addoli. Cafwyd clo buddugoliaethus gyda dau o emynau mawr y genedl a chyfle i ddyblu'r gân.

Gan ddilyn hen draddodiad Tonyfelin, cafwyd gwledd o ddanteithion yn y festri wedyn a phawb yn mwynhau'r gwmnïaeth glòs.

Hedfanodd yr amser a chafwyd bendith yn yr oedfa a thrwy gymdeithasu. Edrychwn ymlaen yn awr am brofiad cyffelyb yn y dyfodol.

*Dr Eirian Dafydd*

# Bannog (danteithfwyd coginiol?)

*gan Clive Williams*

Mae 'bannog' yn air sydd efallai ddim ar dafod pawb bob dydd. Yn wir, byddwch yn cael rhywfaint o anhawster mewn gwirionedd yn dod o hyd iddo yn y geiriadur. Pan wnes i chwilio ar-lein gyntaf am yr ystyr, ni restrwyd y gair hyd yn oed yn 'Geiriadur yr Academi', 'Geiriadur Bangor' neu 'Geiriadur y Drindod Dewi Sant'. Fodd bynnag, rhoddodd 'Geiriadur Prifysgol Cymru' ystyr weddol fanwl i mi i 'bannog': (ansoddair: [a]: uchel, aruchel, enwog, amlwg, dyrchafedig; [b]: corniog].

Ond beth, efallai byddwch chi'n gofyn, yw fy niddordeb i yn y gair bach anarferol hwn? Wel i ddechrau, dyw e ddim allan o unrhyw awydd personol i wella fy ngeirfa er mwyn gwneud argraff gyda fy sgiliau ieithyddol. Na, mae yna reswm mwy gor-syml na hynny. Rydych chi'n gweld, rwy'n hoffi meddwl amdanaf fy hun fel ychydig o arbenigwr o ran y celfyddydau coginio ... rwy'n cofio'n dda yn ystod sgwrs ar gastronomeg un noson yn y dafarn pan ddywedodd ffrind yn graff, "Mae Clive yn gallu coginio!"

Ac mae hynny'n fy arwain ymlaen i ddatgelu rhywbeth i chi, ac i rannu rhywbeth gyda chi! Roeddwn yn ymwybodol iawn o'r 'bannock' Albanaidd enwog (mae i'r gair 'bannock' wreiddiau Celtaidd, yn dod o air Lladin sy'n golygu'n syml iawn, 'toes pobi'). A dysgais am y 'bonnag' Manaweg. Yna meddyliais i mi fy hun nad oes gennym ni Gymry ddim byd cyfatebol; er nad yw fersiwn melys o'n 'bara planc' yn rhy annhebyg. Felly gosodais y dasg i fi fy hun o greu fy nanteithfwyd coginiol fy hun yr wyf wedi ei alw'n 'bannog' ...am ddim rheswm arall ond ei fod yn gymysgair o'r geiriau 'bannock' a 'bonnag'!

Mae'r canlyniad yn sicr yn goglais fy mlasbwyntiau, ac os rhowch gynnig arni eich hun, gobeithio y bydd yn gogleisio eich rhai chi hefyd!

***Bannog yn yr Arddull Draddodiadol***

*Teisen Ffrwythau â Grawn Cyfan*

Yn gwneud 570g/1¼ pwys bannog

***Cynhwysion:***

225g/8 owns blawd bara gwenith cyflawn
225g/8 owns ffrwythau cymysg sych
150ml/¼ peint o de oer
½ llwy de sbeis cymysg
½ llwy de halen
3 llwy de powdr pobi
57g/2 owns menyn neu farjarîn
57g/2 owns siwgr brown meddal
Tua 150ml/¼ peint llaeth

***Am y sglein:***

*Ychydig o laeth*
*1 llwy fwrdd siwgr Demerara*



***Cyfarwyddiadau:***

Mwydwch y ffrwythau sych yn y te dros nos.
Rhowch y blawd, halen a phowdr pobi mewn powlen.
Rhwbiwch y menyn neu'r marjarîn i mewn.
Trowch y siwgr, y sbeis cymysg a'r ffrwythau sych i mewn.
Ychwanegwch y llaeth a'i gymysgu i ffurfio toes meddal ond nid gludiog.
Rhowch y gymysgedd mewn tun torth wedi'i iro, 1 pwys (450g).
Brwsiwch gyda llaeth a'i daenu â siwgr Demerara.
Pobwch ar dymheredd o 170°C, 370°F, marc nwy 3, am 1¾ awr.
Profwch gyda sgiwer - os daw'r sgiwer allan yn lân mae'r bannog wedi'i goginio.
Trowch allan o'r tun torth a'i oeri ar rac weiren.

# Priodas yn y Canolbarth

Ddydd Sadwrn, 30ain Ebrill, priododd Siwan Hywel a David Johnson yng Nglyngynwydd ger Llanidloes. Dewisodd Siwan y dyddiad hwnnw gan i'w rhieni, Alun a Sharon Howell, briodi ar yr un dyddiad ym 1983. Wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd, dewisodd y ddau briodi mewn lleoliad rhwng eu cartrefi teuluol – Siwan o Gaerffili a David o Lannau Mersi. Mewn ysgubor fechan, cynhaliwyd seremoni sifil syml gyda gwledd i ddilyn mewn ysgubor fawr ar yr un safle.



Ym 1951, roedd mam-gu Siwan, Enid Oliver, yn ysgrifenyddes ym mhencadlys Urdd Gobaith Cymru yn Aberystwyth. Un o'i chyd-weithwyr yno oedd Aneurin Jenkins-Jones a gyfansoddodd emyn priodas ar gyfer Dafydd ac Enid Oliver. Ym 1983, fe ganwyd yr emyn ym mhriodas Alun a Sharon Howell, rhieni Siwan, ond gan mai seremoni sifil oedd dewis Siwan a David, nid oedd modd i'r gynulleidfa ganu emyn yn ystod y briodas. Fodd bynnag, cafwyd datganiad hyfryd ohono yn ystod y wledd gan eu ffrindiau – Shanta  Miller-Talbot a David Hodges, cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.

Ydych chi'n gyfarwydd â'r traddodiad Cymreig o "*ddal cwinten*"? Arferai plant yng Ngheredigion ddal rhaff i rwystro gwesteion rhag cyrraedd capel neu eglwys ar gyfer gwasanaeth priodas gan ddisgwyl iddyn nhw daflu ceiniogau allan o'r ceir i dalu am yrru heibio. Wedi derbyn darnau arian, fe fydden nhw'n gostwng y rhaff a chaniatáu i'r gwesteion fynd ymlaen i'r briodas.



Yng Nglyngynwydd, fe gafwyd traddodiad y gwinten ar ei newydd wedd. Doedd dim modd rhwystro ceir gan bod nifer helaeth o'r gwesteion eisoes yn aros ar y safle ond cafodd y plant hwyl fawr yn creu cwinten liwgar a'i dal o flaen y fynedfa i'r ysgubor. Cyn mynd i fewn, disgwylient i'r gwesteion ddawnsio, ddweud jôc neu dalu i gael mynediad i'r briodas.

Yn dilyn y briodas, aeth Siwan a David ar eu mis mêl i Bruges. Mae David yn ddylunydd cyfrifiadurol i Nexperia yng Nghasnewydd a Siwan yn gweithio i Safer Wales i gynorthwyo menywod bregus a gweithwyr rhyw yng Nghaerdydd.

Dymuniadau gorau am briodas hapus oddi wrth y ddau deulu a'u holl ffrindiau.

**Bannog (parhad)**


*Mae torth Bannog yn arbennig o dda wedi'i daenu â menyn ac yn cadw'n dda am 5-6 diwrnod wedi'i storio mewn cynhwysydd aerglos.*

A wnes i ddim stopio yno...fe wnes i greu torthau bannog, byns bannog, teisennau bannog, wejes bannog a bannog fflats neu rownds ...i gyd gydag amrywiaeth o ffrwythau blasus a sbeisys neu flasau yn cydfynd â nhw ...fel rhiwbob a sinsir, ceirios ac almon, a llus a fanila.

Nawr rwy'n meddwl mod i wedi rhannu digon o fy mlas Epicureaidd gyda chi... os ydych chi eisiau gwybod mwy, bydd rhaid mynd ar-lein i Amazon a chael eich dwylo ar fy llyfr 'Pan-Celtic Country Recipes'!

# Troedrhiw'r Fuwch (3)

Er bod cymuned Troedrhiw'r Fuwch wedi diflannu o'r tir, mae ymdeimlad o berthyn iddi yn dal yn fyw yng nghalonnau disgynyddion y trigolion. Mae sawl un ohonynt yn ymchwilio i'w hanes, ac mae'r sylwadau sy'n dilyn yn adlewyrchu eu gwaith manwl a diflino.



Mae atgofion teuluol yn allweddol i'r broses, a'r dogfennau, lluniau a chreiriau sy'n drysorau teuluol ac yn cyfoethogi'r adroddiadau ffeithiol. Anhawster yr ymchwilwyr lleol yw bod cymaint o'r adroddiadau ffeithiol yn y Gymraeg, ond mae modd goresgyn hynny. Anhawster arall yw bod arferion a chyfundrefnau'r hen gapeli mor ddiethr i drigolion y cymoedd heddiw. Mae calendr digwyddiadau'r capel, fel y Cyrddau Mawr, y Cwrdd Gweddi, y Cwrdd Misol a'r Gymanfa a roddodd drefn fel y tymhorau i flwyddyn y gymuned, i gyd yn angof bellach.

Un o arferion y capeli Anghydffurfiol yw'r adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan bob capel. Byddai'r adroddiad hwn yn nodi enwau a chyfeiriadau'r aelodau i gyd, ynghyd â'u cyfraniadau i waith y capel trwy'r flwyddyn. Dyma ffynhonnell ardderchog o wybodaeth – os oes modd dod o hyd iddi. Nid oedd copi o adroddiadau capel Bethania Troedrhiw'r Fuwch ar gael i'r ymchwilwyr. Efallai byddai modd dod o hyd iddynt yn archifdy'r Bedyddwyr, ond mae pellter hwnnw, a chyfyngiadau Covid, wedi profi'n faen tramgwydd mawr yn ystod y flwyddyn hon.

Ond dyma ddwy o ddarllenwyr Cwm*ni* yn dod i helpu. Roedd gan Ann Walker ac Eirlys Thomas gopïau o hen adroddiadau rhanbarthol y Bedyddwyr, ac roedd rhai o'r rheiny'n taflu goleuni ar hanes capel Troedrhiw'r Fuwch. Dyma enwau swyddogion y capel, ac, wrth gwrs, enwau ei weinidogion.

Roedd gan un o weinidogion Bethania enw digon anghyffredin: Levi John. Roedd ymchwilwyr brwd a chraff Troedrhiw'r Fuwch yn barod nawr i dwrio trwy'r cyfrifiadau a chofnodion swyddogol eraill, ac olrhain peth o'i hanes.

Ganed Levi John yn Abergwaun, Sir Benfro, ar Ebrill 1af 1856, ond i deulu tlawd iawn neu un a brofodd ryw anffawd ofnadwy. Yn yr amser hwnnw, rhaid oedd i'r rhai na fedrent gynnal eu hunain "fynd ar y plwy", sef mynd i dloty - carchardy'r tlawd ym marn y werin. Erbyn cyfrifiad 1871 roedd Levi John yn byw yn nhloty Hwlffordd. Gan ei fod yn 15 mlwydd oed, fe fyddai wedi ennill ei damaid o fara a basnaid o gawl trwy weithio wrth un o'r tasgau diflas a diddiwedd a orfodid ar drigolion pob tloty.

Ond daeth tro ar fyd iddo yn ystod y blynyddoedd nesaf. Nid oes dim o'i hanes rhwng 1871 ac 1881 wedi dod i'r golwg eto, ond rywsut llwyddodd i adael y tloty. Byddai bechgyn a merched y tlotai yn cael eu prentisio i ffermydd neu fusnesau'r ardal; tybed a ddigwyddodd hynny i Levi John? A ddaeth i sylw rhyw ffarmwr neu ddyn busnes a noddodd grwtyn galluog? Nid oedd yn anghyffredin i gapeli hefyd noddi bechgyn addawol. Beth bynnag a ddigwyddodd, yn 1881 priododd Levi John a Mary Ann yng nghapel y Bedyddwyr, Felinfoel, Llanelli.

O hyn ymlaen mae Levi John a'i deulu'n symud o ardal i ardal yn ne Cymru. Erbyn hyn roedd yn weinidog, mae'n debyg , er does dim cofnod o'i ordeinio wedi dod i'r golwg eto. Mae lleoliadau genedigaethau ei blant - Llanon, Aberdâr, Fochriw, Gelligaer - yn tystio i deithiau'r teulu. Ganed y plentyn olaf, Annie Mary, yn Nhroedrhiw'r Fuwch yn 1899. Erbyn hynny roedd y Parchedig Levi John yn weinidog Capel Bethania, ac yn byw gyda'i deulu yn 13 High Street – yng nghanol y pentref diflanedig. Mae llawer o hanes y gweinidog hwn a ddaeth o'r tloty i'r pulpud wedi diflannu hefyd, ond gobeithiwn adfer ei stori wrth ail-greu'r gymuned ddiflanedig yn rhithiol.

# Cofio Kathryn Mary Thomas

## Un o blant Tredegar

Ar ôl clywed yn ddiweddar am farwolaeth Kathryn Thomas (Davies gynt), meddyliais y buaswn yn rhannu ychydig o'i hanes hi a'i theulu gyda darllenwyr Cwm*ni*. Roedd Kathryn, fel cynifer o blant Blaenau'r Cymoedd, wedi gadael ei chynefin ers blynyddoedd, ond roedd yr ardal a'i phobl yn parhau'n agos at ei chalon. Yn ferch i ddau o Gymry Cymraeg Tredegar, addysgwyd hi yn Ysgol y Merched, Hengoed. Hyfforddodd fel athrawes cyn priodi ynghanol y 1960au â'r Parch. D. Nennog Thomas, gweinidog ifanc Moreia, Rhymni.



Roedd mam Kathryn, Marie, ymhlith y cyntaf o ferched Tredegar i ennill gradd prifysgol a bu'n brifathrawes yno am flynyddoedd. Hannai ei thad, Emrys Davies, o Drefil, ac mae'n debyg fod ganddo siop gyferbyn â gwesty'r Castell cyn dod yn weinidog ar gapel Saron, Tredegar. Roedd gan y ddau ddiddordeb mewn hanes lleol a nhw sefydlodd Cymdeithas Hanes Tredegar. Tadcu Kathryn ar ochr ei mam oedd Ebenezer Thomas, un o drigolion amlwg y dref, ac adroddai Kathryn yr hanes amdano'n ceisio tawelu'r dorf adeg y cynnwrf fu yno pan ymosodwyd ar siopau Iddewon lleol. Fore trannoeth, aeth o dŷ i dŷ yn ymddiheuro i'r teuluoedd Iddewig am ymddygiad gwarthus ei gyd-drefwyr.

Rwy'n cofio Kathryn yn fenyw ifanc yn canu fel unawdydd mewn cyngherddau ac oedfaon capel. Roedd hi'n smart a phrydferth a chanddi lais soprano arbennig iawn. Cymaint oedd ei dawn fel y dywedwyd y gallai fod wedi serennu fel cantores opera broffesiynol. Cofiaf hefyd ymweld â Mans Moreia, a hithau erbyn hynny'n fam i dair merch fach, Helen, Rhiannon a Mari Gwent. Roedd yn golled i Rymni pan symudodd y teulu i Drawsfynydd. Ond dyna brofiad oedd teithio'r holl ffordd i Sir Feirionydd i'r Cyrddau Sefydlu gyda llond bws o bobl y capel i ffarwelio â nhw.



Fel athrawes Saesneg yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog fe wnaeth Kathryn argraff barhaol. Ymhlith y disgyblion y bu'n meithrin eu doniau ac yn eu hannog i ysgrifennu roedd y llenor, Dewi Prysor, a dilynodd ei lwyddiant ef ac eraill gyda diddordeb. Er iddi fyw am gyfnod yng Ngheredigion, dychwelodd i'r gogledd at ei theulu - i Ben Llŷn y tro hwn - wedi marwolaeth ei gŵr.

Cynhaliwyd ei hangladd ddiwedd mis Mai yng nghapel yr Annibynwyr Brynrhiwgaled, Pentre Bryn ger Cei Newydd. Yn addas iawn, roedd yr achlysur yn llawn cerddoriaeth a diolchgarwch.

Roedd Kathryn yn berson hawddgar a hoffus, ac yn meddwl y byd o'i merched a'i hwyrion a'i hwyresau. Roedd yn nain i wyth ac yn hen nain i bedwar. Mae nifer ohonynt wedi etifeddu ei dawn gerddorol, gan gynnwys ei hŵyr Jack Thomas Davies sy'n prysur gwneud new iddo ei hun fel actor a chanwr dan ei enw llwyfan, Jack Wolfe. (Gwglwch e!)

*Dr Sian Rhiannon Williams*

# NEWYDDION

# YSGOL Y LAWNT







**Bwystfilod Bychain**
**Blwyddyn 1 a 2**



### Bwystfilod Bychain

*Bu Blynyddoedd 1 a 2 yn astudio bwystfilod bychain yn* ystod y tymor ac wedi mwynhau chwilio tir Ysgol y Lawnt am chwilod! Mae'r coetir a'r gwlypdir yn adnodd gwych i'r disgyblion archwilio, ddarganfod a chreu cartrefi ar gyfer llu o fwystfilod bychain a oedd yn cuddio.

Fel rhan o'r prosiect, ymwelodd y disgyblion â'r sŵ glöynnod byw, lle roeddent yn gallu crwydro yn y cynhesrwydd wrth i'r glöynnod byw lanio ar eu dwylo.



### Mabolgampau dan 5

Roedd yn bleser croesawu'r rhieni yn ôl i'n digwyddiadau ysgol. Roedd ein disgyblion dan 5 oed yn cystadlu â'u pennau'n uchel - am ddiwrnod gwych!

Diolch i rieni a ffrindiau Ysgol y Lawnt am eich cefnogaeth barhaus.



# CAFFI CLIC A CHLONC

Yn dilyn dwy flynedd o gau oherwydd Covid 19, agorodd Ysgol y Lawnt ei drysau i groesawu eu cwsmeriaid yn ôl i'r caffi.

Agorodd Caffi Clic a Chlonc am y tro cyntaf yn 2017 fel prosiect busnes i ddisgyblion blwyddyn 6. Ers yr agoriad cychwynnol, mae pob disgybl yn rhan o'r fenter a gwahoddir rhieni pob disgybl i mewn yn ystod tymor yr ysgol i brofi bwydydd y mae'r disgyblion wedi'u gwneud. Mae'r caffi'n datblygu llu o sgiliau busnes, gan gynnwys cyllid, gweinyddu, coginio ac ymchwil.

Llwyddodd yr Ysgol i ennill ail wobr yng nghystadleuaeth y Criw Mentrus yn 2018 ac ers hynny mae'r fenter wedi mynd o nerth i nerth.




CAFFI

CLIC

A

CHLONC






## Trip Ysgol CA2

Dydd Iau Mai y 26ain, ac wedi amser hir heb drip ysgol, fe ymwelodd pawb yn yr adran iau â'r Gerddi Botaneg yn Llanarthne, fel sbardun i'n thema 'Bywyd Gwyllt a Bwystfilod'.

Yn ogystal â chael cyfle i grwydro'r gerddi gwych, bu Bl 3 a 4 yn ymwneud â gweithdy 'Byd Hudolus y Gwenyn', tra cafodd Bl 5 a 6 brofiadau di-ri wrth ddipio mewn pyllau a chanfod trychfilod o bob math!




## Llais 21 ym mlwyddyn 4

Wedi eu hymweliad penigamp i'r Gerddi Botaneg, dyma ddisgyblion Blwyddyn 4 yn cydweithio mewn parau wrth drafod blodau gwyllt a gwenyn.

Tybed pwy ddefnyddiodd y mwyaf o wefreiriau?

# Parchedig Milton Jenkins yn 90 oed

Eglwysi cyfeillgar a chroesawgar fu Bethel a Thonyfelin erioed, a chyn dyddiau COVID byddai'r sgwrsio yn aml yn parhau am gyfnod wedi'r oedfa. Bu'r ddwy gynulleidfa hefyd yn rai a hoffai ddathlu'r achlysuron arbennig ym mywydau personol yr aelodau. Ond collwyd hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



Hyfryd felly oedd cael achos teilwng i ail-gydio yn y cymdeithasu dros baned a chacen yn festri Tonyfelin yn ddiweddar. A pha well rheswm na phen-blwydd y Parchg Milton Jenkins yn 90 oed. Felly ar ôl yr oedfa ar fore Sul, 29 Mai, a arweiniwyd gan y Parchg Robert Owen Griffiths o Radur, heidiodd y gynulleidfa i'r festri am barti bach. Cawsom gyfle i ganu pen-blwydd hapus a gwledda ar ddanteithion a chacen ben-blwydd aml-haenog hynod o flasus. Ac roedd y cyfan yn syrpreis a gadwyd oddi wrth Mr Jenkins nes iddo gamu i'r festri a dod wyneb-yn-wyneb â'r gacen arbennig. Roeddem yn falch hefyd bod Eira a Hywel Jones, merch a mab-yng-nghyfraith Mr Jenkins wedi gallu ymuno â ni.



Dros y blynyddoedd cawsom gyd-ddathlu gydag Mr a Mrs Jenkins ar sawl achlysur – priodas aur, priodas ddiemwnt, cofnodi 20 mlynedd o weinidogaeth Milton yn ein plith a'i weinidgaeth dros 50 a 60 mlynedd mewn gwahanol ardaloedd o Gymru. Y mae bwlch enfawr yn ein plith ar ôl colli Rita yn ystod y cyfnod COVID, ond fe erys yr atogfion a'r hiraeth amdani.

Diolch i bawb a fu'n trefnu.

*Dr Eirian Dafydd*

Annwyl gyfeillion

Wyddoch chi bod RNIB yn cynnig gwasanaeth trawsgrifio am ddim i unigolion sydd yn methu darllen print cyfredol?

Boed y lle hudolus y mae'ch hoff lyfr yn arfer mynd â chi yno, neu atgofion arbennig sy'n cael eu cloi mewn llythyrau neu gyfnodolion nad ydych chi'n gallu eu darllen bellach, rydyn ni'n deall pwysigrwydd a phŵer y gair ysgrifenedig a pha mor anodd mae'n gallu bod i chi ddarllen yr hyn rydych chi eisiau, pan fyddwch eisiau.

Mae bywyd bob dydd yn llawn print a gall yr anallu i ddarllen hyn gyflwyno rhwystrau sylweddol i arwain bywyd annibynnol. Gall ein tîm helpu i gael gwared ar y rhwystrau hyn. Drwy gymryd eich print a'i drosi i fformat allwch chi ei ddarllen eich hun – braille, print bras neu sain – gallent eich helpu chi i gadw mewn cysylltiad gyda'ch cymuned leol, parhau i fynychu grwpiau cymdeithasol a gweithgareddau, mwynhau eich hoff hobi, neu ehangu eich gorwelion drwy addysg neu deithio.

Os am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth, cysylltwch drwy e-bostio cardifftranscription@rnib.org.uk neu ffonio 02922 749668.

Wrth gwrs, er mwyn gallu cynnal y gwasanaeth arbennig yma, rydym yn dibynnu ar garedigrwydd llu o wirfoddolwyr i roi eu hamser i recordio'r print. Mae prinder darllenwyr Cymraeg ar hyn o bryd, felly rydym yn chwilio am bobl sydd yn mwynhau darllen, gyda llais dymunol a chlir, sgiliau TG da a gydag awr neu ddwy rydd yr wythnos i ymuno â ni. Os oes diddordeb gennych,
e-bostiwch: transcriptionportal@rnib.org.uk am fwy o wybodaeth.

Yr eiddoch yn gywir

Gwenllian Williams Gwasanaeth Trawsgrifio RNIB

RNIB
Cymru

# Colofn y Dysgwyr

Y mis yma rydyn ni'n mynd i ddarllen cerdd arall gan T Llew Jones. Ydych chi'n cofio cerdd mis Mehefin am Draeth y Pigyn? Mae rhai pobl yn meddwl mai traeth Llangrannog, hoff draeth y bardd, yw Traeth y Pigyn. Dyma gerdd sy'n bendant am draeth Llangrannog a'r graig fawr sy ar y traeth. Mae T Llew Jones yn meddwl am y graig sy wedi bod ar y traeth am ganrifoedd hir, ers dechrau'r byd. Mae'r tywydd wedi ei threulio a chregyn wedi tyfu arni ond mae yno o hyd. Pan fydd ein gwareiddiad ni wedi diflannu, bydd y graig ar draeth Llangrannog!

### Y Graig ar Lan y Môr

Bu craig ar draeth Llangrannog
Ers dechrau cynta'r byd,
Yn herio'r gwynt a'r tonnau,
Ac yno mae o hyd.

A phan fo'r storm ar ddyfod
Bydd gwylain yn un côr
Yn crio'n drist ar ysgwydd
Y graig ar lan y môr.

Dan bwysau'r maith ganrifoedd
Fe aeth ei chefn yn grwm,
A thyfodd crach o gregyn
Dros ei hystlysau llwm.

Bu'r môr yn ceisio'i chwalu
Sawl milwaith ar fy ngwir;
Ond daliodd hi i'w herio;
Dyna i chi herio hir!

A phan â'n llwch ein cestyll,
A thyrrau ucha'r byd,
Bydd craig ar draeth Llangrannog
Yn herio'r môr o hyd.

*yn bendant : certainly* *craig : rock* *canrifoedd : centuries* *treulio: to erode* *cregyn : barnacles*
*gwareiddiad : civilisation* *diflannu: to disappear* *herio : to challen* *gwylain: seagulls* *yn grwm : crooked*
*crach : scab* *ystlysau : sides* *chwalu : to destroy* *milwaith : a thousand times* *ar fy ngwir : really and truly* *llwch : dust*

*Ann Lewis*

# Noson Datrys y Dirgelwch

## *"Camau Cloff Cwm Clyd"*

Cwmni Cwm ni

**Canolfan y Glowyr, Caerffili, Nos Wener, Gorffennaf 15fed 7.30**

**Mynediad £10 yn cynnwys bwffe**

Ar ddechrau'r noson byddwn yn dadorchuddio'r llun gan Mary Jones a gyflwynwyd i'r Ganolfan gan MyW yn dilyn Eisteddfod yr Urdd 2015 yn Llancaeach. Dewch i weld y llun arbennig hwn sy'n dangos chwedlau Cwm Rhymni ac i fwynhau noson o gymdeithasu â Datrys y Dirgelwch.

# Ymweld â Gerddi Dyffryn

Dyma griw llawen Merched y Wawr yn sefyll o flaen plasty ysblennydd Dyffryn, er taw dim ond y gerddi eu hun sydd ar agor i'r cyhoedd eleni. Mae gwaith atgyweirio yn parhau yn y tŷ ei hun, ac yn wir roedd y gweithwyr wrthi'n ddyfal pan ymwelon ni â'r lle ar Fehefin 15fed. Mae'r tŷ bellach dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ar ôl cyfnod hir o fod yng ngofal yr awdurdod lleol.

Rhyfedd yw meddwl mor fyr oedd cyfnod anterth y plasty. Ni fu'n gartref i hen deulu bonheddig o Gymry, fel y Fan a Llancaeach Fawr yn ein cwm ni. Adeiladwyd y plas rhwng 1893-5, wedi i'r teulu Cory, a hanai o Ddyfnaint yn wreiddiol, wneud eu ffortiwn - fel cynifer o deuluoedd eraill - yn sgil datblygiad y diwydiant glo. Mae maint ac arddull y prif adeilad yn Nyffryn, heb sôn am y gerddi, yn tystio i gyfoeth aruthrol y teulu, a roddodd ei enw i Coryton, un o faesdrefi Caerdydd - ac felly i'r gyfnewidfa draffig sy'n cysylltu'r A470 a'r M4. Ond erbyn y 1960au roedd y plas yn nwylo'r cyngor, ac athrawon a phlant ysgol wedi meddiannu'r tŷ ei hun.

Ond beth am ymweliad Merched y Wawr? Roedd yn ddiwrnod hyfryd o Fehefin, ac unwaith i ni gerdded draw o'r maes parcio i'r plasty ei hun, penderfynon ei bod hi'n hen bryd i ni gael coffi bach. Roedd yn rhaid hefyd fynd ati i asesu ansawdd y teisennod moethus sydd mor nodweddiadol o gaffis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - a rhannu ein hatgofion o'r plas pan oedd yn ganolfan hyfforddi athrawon. O gofio taw cyn-athrawesau yw cynifer o aelodau'r gangen, nid yw'n rhyfedd fod cymaint ohonom yn cofio treulio nosweithiau dan do hen gartref y teulu Cory a mynychu darlithiau a gweithdai difyr (wel, rhai ohonynt, beth bynnag!).



Braf iawn oedd eistedd ar y teras llydan, gan edrych allan ar olygfa fendigedig y gerddi eu hun, a mwynhau'r coffi, y teisennod (blasus iawn, yn wir), y cwmni a'r clonc. Byddai rhai ohonom wedi bod yn barod iawn i dreulio'r diwrnod cyfan yno ar y teras, ond penderfynon ni y dylwn ymweld â'r gerddi oedd yn ymestyn o'n blaen i bob cyfeiriad – pwrpas y diwrnod, wedi'r cyfan.

Diwrnod braf o haf ydoedd, a'r gerddi yn eu gogoniant. Hyfryd yw gweld y gwaith sydd wedi ei wneud eisoes i ail-godi'r tŷ gwydr anferth a'r gerddi llysiau. Mae'r garddwyr wrthi ers blynyddoedd nawr yn adfer y gerddi hyn, ac mae ôl eu gofal – a'u hamynedd – i'w canfod ymhobman yno.Treulion ni orig hamddenol yn crwydro'r gerddi llysiau, gan edmygu'r holl blanhigion cyfarwydd ac anghyfarwydd sydd yn tyfu yno - a chan gymharu maint y ffa a'r pys a llewyrch  y planhigion eu hun gyda'r rhai sy'n tyfu yn ein gerddi bach ni adre.

Mae'n hawdd mynd ar goll yng ngerddi Dyffryn, gan fod nifer o "ystafelloedd" gwahanol i'w mwynhau, ond yn y diwedd dyma ni'n dod at ein gilydd unwaith yn rhagor ger y gamlas - y llyn hir a chul sydd yng nghanol y lawnt eang o flaen y tŷ. Ac mae'r llun yn dangos yr aduniad hapus hwnnw!

Wedi'r cerdded yng ngwres y dydd, amhosibl oedd peidio ag ymweld â'r caffi unwaith eto,  rhoi prawf arall ar y teisennod (dal yn flasus iawn)- a chael clonc. Mor hyfryd yw cael eistedd wyneb yn wyneb gyda ffrindiau ac ymlacio yn eu cwmni ar ôl dwy flynedd o ofid - a Covid - a'r rheidrwydd i ddiogelu ac ynysu. Ie, roedd yn braf eistedd allan yng ngwres diwrnod bendigedig o haf, ond gwres y cyfeillgarwch oedd yn twymo'n calon, ac yn euro ein hatgofion o'r ymweliad. Roedd pawb yn ddiolchgar iawn i Gaynor Williams, ein trefnydd diflino, a sicrhaodd ymweliad mor hyfryd i ni!

# Gardd Gorffennaf

Fe gofiwch efallai fy mod wedi arbrofi eleni gyda'r hen hadau a ddarganfyddais yn y cwpwrdd. Dyma'r canlyniadau cyn belled.

*Blodau'r Haul*: tua hanner yr hadau a flagurodd ac mae safon y planhigion yn amrywio'n fawr. Cawn weld sut fydd y blodau!

*Cosmos*: methiant 100%. Ni flagurodd un o'r hadau a  blannais.



***Babis blodau o hyd (Matthiola bicornis)***

*Matthiola bicornis* ("night-scented stock"): Wedi blaguro, ond mae'r planhigion yn fach iawn o hyd a does dim sicrwydd a fyddant yn llwyddo. Mae pob garddwr gwerth ei halen yn beio'r tywydd, ond bu'r cyfnod hir o dywydd sych a gwres affwysol ail wythnos Mehefin yn ormod i rai o'r planhigion bach, ac i rai planhigion ifanc eraill hefyd.



***Blodyn cyntaf y pys pêr***

*Pys pêr*: Dim ond rhyw 40% a flagurodd, ond mae hynny'n gyffredin gyda'r blodau hyn. Wedi'r cyfan, rhaid rhoi'r hadau i socian mewn dŵr am 24 awr cyn eu plannu, sy'n arwydd clir bod plisgyn caled iawn o'u cwmpas. Nid yw'n rhyfedd felly bod y blaguryn tyner yn cael anhawster wrth geisio dod allan o'i grud. Weithiau fe welwch olion brwydr a gollwyd wrth i chi ofalu am y planhigion bach.

Ond roedd digon o blanhigion gen i i rannu rhai gyda ffrindiau eto eleni, er nid oeddwn wedi prynu hadau newydd. Ac wrth i fi ysgrifennu'r geiriau hyn, mae un blodyn wedi agor yn llawn yng ngwres haul Mehefin. Rhyfedd meddwl bod blodau porffor y math hwn o bys pêr (*Lathyrus odoratus* 'Matucana') wedi bod yn blodeuo yn ein gerddi ers canrifoedd. Yn ôl yr hanes, Franciscus Cupani, mynach o Sisilia ddaeth â hadau'r planhigyn i Brydain yn yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'r ffaith taw dyma'r cyntaf o'm hen hadau i flodeuo eleni hefyd yn tystio i gryfder y dras!



***Bwlch yn y llinell***



***Pwy - fi?***

Ond trist oedd hanes rhai o'r pys pêr a gafodd gymaint o ofal gen i yn ystod misoedd y gwanwyn. Wedi i fi blannu rhai allan yn yr ardd, gyda gofal mawr, prennau i'w cynnal yn y dyfodol, a digon o fwyd a dŵr am eu gwreiddiau, daeth rhywun arall i balu'r pridd… Mae bwlch amlwg yn y rhes o bys pêr erbyn hyn, a golwg digon simsan ar un o'r planhigion sydd wedi goroesi sylw *a*ngharedig y gath!

## Cân Actol Ysgol Gymraeg Caerffili – Ffion Crabtree

Anrhydedd oedd cael yr holl gyfleoedd gan ein hysgol eleni ar ôl dwy flynedd heriol. Dim ond mis yn ôl wnes i berfformio yn y gân actol ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych, cystadleuaeth werth ei gweld. Gan sefyll ar y llwyfan, a chanu o fy nghalon, cefais i gymaint o hwyl. Roedd y gân actol yn llawn dawnsio, canu ac actio ac mae'r gân actol llawn hwyl am aros yn fy ymennydd am byth.

Dau brofiad arall wnes i fwynhau, wedi'u trefnu gan fy ysgol, oedd twrnamaint criced a thennis. Enillodd Ysgol Gymraeg Caerffili y ddau dwrnamaint a nawr rydym yn mynd ymlaen i'r ffeinals ar gyfer y ddau. Cystadleuaeth arall mae fy ysgol, yn cynnwys fi, yn cystadlu ynddi yw BookSlam. Yn BookSlam rydym yn trafod dau lyfr Saesneg. Yn gyntaf roedd rhaid i ni drafod llyfr o'r enw 'Where the Wilderness Lives' o flaen y beirniad, ac yna roedd yn rhaid i ni greu hysbyseb ar ffurf fideo ar gyfer llyfr arall. Roedd ein fideo mor greadigol a mentrus fel enillon ni, ac rydym yn mynd i Aberystwyth i gystadlu yn y rownd derfynol, dim ond un diwrnod ar ôl i'r tîm cwis llyfrau gystadlu yno hefyd!



## Adroddiad Arbennig Ysgol Gymraeg Caerffili

Fe gafodd Ysgol Gymraeg Caerffili ei dewis i fod yn un o'r deg ysgol yng Nghymru i fod yn rhan o'r peilot Estyn ar gyfer arolygu ysgolion gan ddefnyddio'r Fframwaith Arolygu newydd. Daeth tîm o arolygwyr i'r ysgol ar ddechrau Mawrth yn dilyn pythefnos o rybudd. Trefnwyd cyfarfodydd gyda nifer fawr o ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr a staff yr ysgol. Arsylwyd ar nifer fawr o wersi a chraffwyd ar drawsdoriad eang o lyfrau disgyblion, proffiliau gwaith, adroddiadau hunan arfarniad yr ysgol a chynlluniau'r athrawon. Daeth swyddogion y Sir a'r GCA i dderbyn adborth ar lafar gan yr arolygwyr a chyhoeddwyd yr adroddiad yn swyddogol ym mis Mai.

Rhaid dweud bod ansawdd yr adroddiad yn arbennig gyda chyfeiriad at nifer fawr o gryfderau'r ysgol. O ran sêr ein hysgol, sef ein disgyblion, nodwyd eu bod nhw'n hynod gwrtais a hapus a bod eu hagweddau at ddysgu'n gryfder amlwg drwy'r ysgol. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, egwyddorol sy'n deall pwysigrwydd meddylfryd o dwf wrth gyflawni tasgau heriol yn ddyddiol. Maent yn teimlo'n rhan bwysig o deulu'r ysgol ac yn mwynhau derbyn cyfrifoldebau niferus. Er y pandemig, mae eu sgiliau llafar Cymraeg a'u sgiliau cyfrifiadurol wedi parhau i gryfhau. Mae eu sgiliau rhifedd hefyd yn gryfder amlwg.

# Adroddiad Arbennig (Parhad)




Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer iechyd a lles emosiynol y disgyblion yn gryfder arall amlwg iawn.

Nodwyd bod staff yr ysgol yn cydweithio'n frwdfrydig ac angerddol i drochi'r disgyblion yn yr iaith Gymraeg o'u cyfnod cyntaf yn yr ysgol. Trwy gynllunio bwriadus, mae athrawon a chymorthyddion yn llwyddo i ddarparu her briodol i'r ystod lawn o allu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd ofalgar, gefnogol a chroesawgar ble mae pob disgybl yn ymfalchïo eu bod yn aelod gwerthfawr o "deulu" yr Ysgol. Mae staff yr Ysgol yn darparu cymorth ardderchog ar gyfer lles disgyblion trwy raglen cymorth llythrennedd emosiynol a chlybiau anogaeth o dan oruchwyliaeth staff hynod o effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r arweinwyr eraill yn llwyddo i ddarparu cyfeiriad strategol clir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth o ddatblygu disgyblion iach a hyderus mewn cymuned hapus a chroesawgar wedi'i rhannu'n llwyddiannus. Mae eu sylw parhaus ar ddatblygu medrau proffesiynol pob aelod o staff yn elfen nodedig o waith yr Ysgol. Mae staff ar bob lefel yn cyfrannu at sesiynau dysgu proffesiynol yn rheolaidd gan rannu eu harbenigedd yn llwyddiannus. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol.

*Lynn Griffiths*

# Gwydion Jones - Aelod o'r tîm Cwis Llyfrau




Mwynheais gael y cyfle i fod yn y tîm cwis llyfrau blwyddyn 5&6 eleni! Roedden ni'n ymarfer unwaith bob wythnos cyn y diwrnod mawr ym mis Mai! Trafodon ni'r llyfr '10 stori Hanes Cymru' gyda Mr Jonathan Rees yn Ysgol Gynradd Bro Allta ar gyfer y rownd sirol. Yn hwyrach yn y dydd ffoniodd Mr Rees i ddweud ein bod ni wedi dod yn gyntaf, felly roedd yn rhaid i ni greu hysbyseb ar gyfer yr ail ran o'r gystadleuaeth! Roedd hi'n wyliau hanner tymor ac roedd angen i ni ddysgu'r sgript ar gyfer ffilmio'r hysbyseb. Roedden ni'n hysbysebu'r llyfr 'Sw Sara Mai' gan Casia Wiliam. Fy rhan i oedd Mr Parri yr athro! Ddydd Mawrth yn syth ar ôl hanner tymor daethom ni nôl i'r ysgol ac ymarfer am y tro cyntaf a ffilmio ar yr un diwrnod! Ddiwedd y dydd anfonodd Miss Owen, ein harweinydd, y fideo hysbyseb draw at feirniad y cwis llyfrau! Nesaf rydym ni'n mynd i Aberystwyth ar gyfer y rownd genedlaethol - ydyn ni am fod yn fuddugol, tybed?!

# Colofn Dafydd Islwyn

Cyfrol glawr caled hardd ydy "Inc yr Awen a'r Cread - Cerddi Byd Natur" golygydd Rhys Dafis, Llansannan, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Mae'n rhaid i mi ganmol y gyfrol oherwydd fy nghyfyrder Iestyn Hughes, Bow Street, sydd wedi tynnu dwsin o luniau ar ei chyfer. Hoffais yn fawr ei lun sy'n cyfoethogi telyneg tîm talwrn y beirdd Ffostrasol. Llun o'r arfordir ger Aber-porth, Ceredigion. Flynyddoedd yn ôl prynais, yn ail law, "Preiddiau Annwn" gan Tom Parry Jones, ei gyfrol gyntaf o'i farddoniaeth. Ef yn un o feirdd amlycaf Sir Fôn. Cyhoeddwyd y llyfryn yn 1946, flwyddyn ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddod i ben. Ynddo cyhoeddwyd ei delyneg fer, "Eirlysiau". Cerdd afaelgar o'r darlleniad cyntaf. O ganlyniad rhestraf hi fel fy hoff delyneg gan T.P.J. (1905-80). Roeddwn yn falch o'i gweld yng nghyfrol Rhys Dafis.

Rhestrais ddau ddeg tri bardd â chysylltiad â Chwm Rhymni sydd â cherddi yn y gyfrol. Ar ôl eu rhestri, holais fy hun pam rhestri R. Williams Parry (1884-1956); Gwenallt (1915-2011), Iorwerth C. Peate (1901-82); Geraint Bowen (1915-2011); T. Llew Jones (1915-2009) a Rhydwen Williams (1916 - 1997) ? Bu R. Williams Parry ym Mhengam yn ymweld â'i gyd-fyfyriwr yn y brifysgol ym Mangor ddechrau'r hen ganrif, Hugh D. Jones a oedd yn athro yn Ysgol Lewis. Gwenallt oedd beirniad yr englyn yn y Genedlaethol, Caerffili 1950. Gwobrwyodd T. Llew Jones am ei englyn, "Ceiliog y Gwynt" - yr unig dro iddo ennill ar yr englyn yn y Genedlaethol. Daeth yn ail iddo ef ei hun. Ymwelodd Iorwerth C. Peate â Bargoed, Gorffennaf 1927 a gweithiodd gerdd am ei ymweliad - cyhoeddwyd hi yn ei gyfrol gyntaf, "Y Cawg Aur a Cherddi Eraill", Mehefin 1928. Roedd ei darllen hi'n gyntaf, 30ain o Ionawr 1965, ar ôl prynu Crwydro Blaenau Morgannwg gan Gomer M. Roberts yng Nghaerdydd, fel dyrniad dan fy ngên!

1965 oedd y flwyddyn hefyd i mi weld Geraint Bowen, Arolygwr Ysgolion ar y pryd, yn sgwrsio â Mr Iori Thomas, Prifathro Ysgol Trelewis ar iard y merched. Nid ef oedd y prifardd cyntaf i mi weld yn yr ysgol. Wythnosau yn gynt roeddwn wedi bod yn sgwrsio â Rhydwen Williams. Roedd ef wedi dod yno i godi Mrs Davies, athrawes a gwraig ei gyfaill, Y Parchedig Alun Davies, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn Nhreharris.

"Y Llwynog", y soned enwog, ydy cerdd R. Williams Parry yn y gyfrol. "Gardd" ydy teitl cerdd Gwenallt. Mor wir yn ein profiad ydy diwedd y llinell gyntaf: "...... a dant y llew yn dreth ar amynedd caib a fforch." "Yr Heliwr" ydy teitl cerdd Iorwerth C. Peate yn y gyfrol.



Er i dri o brifeirdd Môn ennill y Gadair yn y Genedlaethol ym mhedwar degau'r ugeinfed ganrif, mae'n rhaid i fi gyfaddef mai awdl fuddugol Geraint Bowen, "Moliant i'r Amaethwr" (1946) ydy awdl y ddegawd. Un o'r beirniaid oedd Gwenallt. Canmolodd yr englyn, yr ail o'r pedwar, yn y gyfrol,

Law a thes, clywch sŵn tresi! - Daw'r aradr
Gyda'r hwyr o'r cwysi;
Gwêl linell ei hasgell hi
A brain, lle'r oedd tinbrenni.

Bardd Coronog y Genedlaethol yn 1946 oedd Rhydwen Williams. Bu ef yn byw yn Ystrad Mynach ddiwedd y chwe degau. Detholiad o'i gerdd, "Hen Weithfeydd" sy yn y gyfrol. Fy hoff gerdd gan Rhydwen ydy ei gerdd goffa i James Kitchener Davies, 'Kitch' (1902-52). Cerdd naw pennill, pedair llinell yr un. Dyma'r trydydd:


O, felly ceraist
A'n dysgu ni
I ganu'n wirion
'Run pethau â thi.

Mawr fu dylanwad Kitch ar lawer o'i gydnabod, yn eu mysg, Yncl Dan.

Prifardd arall a anwyd yn 1915 oedd T. Llew Jones. Ymwelodd ef ag Ysgolion Cymraeg Cwm Rhymni nifer o weithiau. Y tro cynta', mae'n siŵr, yn 1976. Bu'n darlithio i nifer o gymdeithasau yn yr ardal hefyd. Roedd yn gyfarwydd â'r ardal flynyddoedd yn gynt. Yn haf 1947 cafodd ei Gadeirio yn eisteddfod talaith Gwent ym Mhontllanfraith dan feirniadaeth Crwys. Bu'n disgwyl am y Gadair am weddill ei oes! Detholiad o'i gywydd meistrolgar yw'r "Ceiliog Du o Goed y Bryn" sy yn y gyfrol. Cywydd arall ganddo sy'n rhoi'r ias fwyn i mi ydy ei un coffa i'w gyn-ddisgybl, Dilys Argoed, wyth oed. Bu hi farw mewn Cymanfa Ganu yr Urdd yn Llandysul. Dyma'r pennill ola',

Erys hi fyth yn ifanc
Llon ei phryd, llawen ei phranc.
Yn ein co' yn dirion a del
Nos da fy Nilys dawel.

Os bu 'darllen euog' erioed, dyma fe: cariad, dirgelwch, dewrder, creulondeb a phopeth arall sy'n




gynhwysion angenrheidiol ar gyfer nofel o'r fath. Mae Geraint Vaughan Jones yn llwyddo wrth ysgrifennu straeon sy'n cydio'n syth. Does dim eisiau darllen hanner cant o dudalennau cyn penderfynu mynd ymlaen. Caiff y darllenwr ei dynnu i mewn i fywyd unigryw Elin Puw.

Elin neu Elena - dewiswch chi. Gwelwn fod stori o fewn stori wrth i ni ddarllen am ddiflaniad tad y prif gymeriad. Ac er bod hanes y tad ychydig bach yn annhebygol, mae'n gredadwy drwy fynegiant storïol crefftus Geraint V. Jones.

Mae'r iaith yn llifo'n rhwydd. Er y tinc gogleddol pendant, mae'r cydbwysedd rhwng y dafodiaith ac iaith safonol wedi'i gweu drwy'r stori. Mae rhamant y cariadon yn cydblethu'n hwylus i gyfeiliant cefndir difyr cerddorol. Mae'r dirgelwch yn datblygu'n esmwyth, er bod rhai agweddau o'r plot yn gallu bod braidd yn rhagweladwy, fel y dyn dirgel a brynodd y Wenallt. Ond eto, does dim eglurhad pam mae nain Elena yn gymeriad mor anodd ac atgas.

Mae Elin yn gymeriad hynod iawn. Mae hi ym mlodau ei dyddiau yn fywiog a phrydferth. Mae ganddi ddoniau cerddorol neilltuol. Nid yn unig mae hi'n canu'r piano a'r ffidil i safon eithriadol ond mae hefyd yn gyfansoddwr. Daw hyn i'r amlwg pan mae unawdydd yn methu cyrraedd cyngerdd blynyddol y côr ac mae Elin yn ymateb drwy chwarae unawdau ac yn cyfareddu'r holl gynulleidfa. Ond beth yw cefndir y ffidil Ffrengig ac o ble daeth y gitâr a guddiwyd mewn llofft? Mae'r garwriaeth naturiol yn blodeuo rhyngddi hi a Drwy dri chan tudalen y nofel mae yna naws o ddirgelwch na ellir ei ddiffinio o gwmpas Elena/ Elin.

Ym meysydd y Rhyfel Byd Cyntaf mae'r llen yn codi ar y naratif ac mae'r dirgelwch yn parhau yng nghefndir y stori hyd at frawddegau ola'r nofel. "Wrth glywed Dewi yn mwmblan 'Harri'r Ail' a gweld y dychryn ar wyneb Elin, mae gwedd fodlon Huw Ambrose yn cilio'n sydyn iawn. 'Oes rhywbeth yn bod?'

*Mary Jones*

# Coleg Gwent - Sul Seiber – 3ydd o Orffennaf

Dyma'r dolenni isod i unrhyw rai fyddai'n elwa o fynychu'r cwrs hwn?
Mae'r cwrs yn rhad ac am ddim ac ar Zoom - Dydd Sul, 3ydd o Orffennaf: 9.30yb-3.30yp.
Dyma'r dolenni i'r gwahanol lefelau:

| | |
|---|---|
| Mynediad Rhan 1 (Entry 1) | https://bit.ly/3iOGvJs |
| Mynediad Rhan 2 (Entry 2) | https://bit.ly/3u3emVP |
| Sylfaen Rhan 1 (Foundation 1) | https://bit.ly/3IYdsxM |
| Sylfaen Rhan 2 (Foundation 2) | https://bit.ly/3DuFbVJ |
| Canolradd Rhan 1 (Intermediate 1 | https://bit.ly/3uKD1x9 1) |
| Canolradd Rhan 2 (Intermediate 2 | https://bit.ly/3iOvGqW 2) |
| Uwch 1 i (Advanced 1 i) | https://bit.ly/3NM2Jua |
| Uwch 1 ii (Advanced 1 ii) | https://bit.ly/3iN1MDA |
| Uwch 2 i (Advanced 2 i) | https://bit.ly/3tUc4YX |
| Uwch 2 ii (Advanced 2 ii) | https://bit.ly/35vTOvC |
| Uwch 3 i (Advanced 3 i) | https://bit.ly/3NymzJ7 |
| Uwch 3 ii (Advanced 3 ii) | https://bit.ly/3IT28mv |
| Gloywi (Proficiency) | https://bit.ly/3DtUq1q |










# Ffiliffest

# ‘22



